

# LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

## DATGANIAD POLISI TÂL

2016-2017

### 1. Cyflwyniad

Yn sgil Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mis Tachwedd 2015, mae gofyn i'r Llyfrgell, fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, gyhoeddi set o egwyddorion sy'n ymwneud â thryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Swyddogion yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig. Diben y Polisi Tâl hwn yw amlinellu polisi'r Llyfrgell mewn perthynas ag ystod o faterion sy'n ymwneud â thâl a chydabyddiaeth ariannol y gweithlu, gan gynnwys tâl a chydabyddiaeth ariannol swyddi uwch a gweithwyr ar y tâl isaf.

### 2. Y Fframwaith Deddfwriaethol

Wrth bennu tâl a chydabyddiaeth ariannol ei holl weithwyr, bydd y Llyfrgell yn cydymffurfio â phob deddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â chyflogaeth.

Mae'r Datganiad hwn yn ymgorffori Deddf Cydraddoldeb 2010, Rheoliadau Cyflogaeth Ran-amser (Atal Triniaeth Lai Ffafirol) 2000, Rheoliadau Gweithwyr Asiant 2010 a Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006, lle bônt yn berthnasol.

O ran gofynion Cyflog Cyfartal sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Cydraddoldeb, mae'r Llyfrgell yn sicrhau nad oes gwahaniaethu ar sail tâl yn digwydd o fewn ei strwythurau tâl. Mae'r Llyfrgell hefyd yn sicrhau bod modd cyfiawnhau'r holl wahaniaethau tâl yn wrthrychol drwy ddefnyddio mecanweithiau Gwerthuso Swyddi sydd wedi'u prawfesur o ran cydraddoldeb ac sy'n cysylltu cyflogau yn uniongyrchol ag anghenion, gofynion a chyfrifoldebau'r rôl.

### 3. Tâl ac Amodau

Mae tâl a thelerau ac amodau gwasanaeth gweithwyr y Llyfrgell yn cael eu pennu'n lleol yn amodol ar gyfyngiadau'r Cytundeb Fframwaith y cytunwyd arno â Lywodraeth Cymru. Caiff dyfarniadau tâl blynyddol eu negodi'n lleol ar y cyd â'r tri undeb llafur cydnabyddedig, sef y PCS, Prospect a'r FDA. Yn sgil y gwaith negodi, cytunir ar gylch cyflog ac fe'i cyflwynir i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Mae'r Llyfrgell yn ystyried yr angen i sicrhau fforddiadwyedd ar y naill law a'r angen i recriwtio a chadw gweithwyr ar y llaw arall. Mae'r Llyfrgell hefyd yn ystyried ei gallu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel.

Mae sefyllfa ariannol y Llyfrgell yn heriol iawn a chafwyd toriadau o'r naill flwyddyn i'r llall yn y Grant Cymorth oddi wrth Lywodraeth Cymru. Ym mis Tachwedd 2015, daethpwyd i gytundeb dwy flynedd ynghylch tâl holl weithwyr y Llyfrgell ym Mand 2 ac uwch. Gofynnai'r cytundeb hwn i'r Llyfrgell gyflwyno codiad cyflog 2.5% rhwng y 1af o Ebrill 2015 a'r 31ain o Fawrth 2017. Ceir eglurhad ynghylch y gweithwyr hynny ym Mand 1 yn Adran 5 – Gweithwyr

sy'n derbyn y Tâl Isaf. Gwelir y graddfeydd cyflog presennol (a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016) yn Atodiad A.

Wedi i swydd gael ei gwerthuso drwy system JEGS (Cymorth Graddio a Gwerthuso Swyddi), mae'r sgôr yn penderfynu i ba fand cyflog y bydd y swydd honno'n perthyn. Fel rheol, penodir gweithwyr i swyddi newydd ar waelod y raddfa berthnasol. Fodd bynnag, gellir amrywio hyn lle bo angen i sicrhau bod yr ymgeisydd gorau, sydd â'r sgiliau a'r cymwyseddau angenrheidiol i gyflawni'r swydd, yn cael ei benodi.

Telir cynyddrannau o fewn y band cyflog ar y 1af o Ebrill bob blwyddyn (hyd nes bod y gweithiwr wedi cyrraedd uchafswm y band). Ni fydd y gweithwyr hynny nad ydynt wedi rhoi 6 mis o wasanaeth sydd yn eu swyddi ar y 1af o Ebrill yn derbyn cynyddran tan y flwyddyn ddilynol.

#### **4. Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Swyddogion**

At ddibenion y Datganiad hwn, cyfeiria 'Swyddi Uwch' ar aelodau Tîm Gweithredol y Llyfrgell. Dyma'r rhesymau dros ddiffinio'r rhain fel "Swyddi Uwch":

- Y rhain yw'r tair swydd â'r cyflogau uchaf yn y strwythur;
- O fewn strwythur y sefydliad, y rhain yw'r swyddi rheolaethol sy'n benaethiaid ar y ddwy gyfarwyddiaeth;
- Datgelir cyflogau'r tair swydd hon yn y Cyfrifon Blyneddol.

Caiff y cyflogau hyn, fel yr oeddent ar y 1af o Ebrill 2016, eu datgelu'n llawn yng nghyfrifon y Llyfrgell. Dyma'r cyflogau sylfaenol:

**a) Llyfrgellydd / Prif Weithredwr**

Cyflog y swydd hon yw £90,000 y flwyddyn.

**b) Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd (Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus)**

Cyflog y swydd hon ers y 1af o Fedi 2016 yw £73,000 y flwyddyn.

**c) Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd (Adnoddau Corfforaethol)**

Cyflog y swydd hon ers y 1af o Fedi 2016 yw £73,000 y flwyddyn .

#### **5. Gweithwyr sy'n derbyn y Tâl Isaf**

Y gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf yn y Llyfrgell yw'r rhai ym Mand 1A a Band 1 sydd ar gyflogau cyfwerth ag amser llawn 37 awr ar gyfradd a bennir gan y Living Wage Foundation. Bwriad y Llyfrgell yw parhau i dalu Cyflog Byw. Mae'r Llyfrgell wedi diffinio'r rhain fel "swyddi ar y tâl isaf" gan mai'r rhain yw'r cyfraddau tâl isaf yn strwythur tâl y Llyfrgell.

Y mis Ebrill 2016, cynhaliwyd adolygiad o'r cyflogau ym Mand 1A a Band 1 fel yr oeddent ar y 1af o Ebrill 2016. Y cyflog i weithwyr Band 1A yw £15,934 a'r cyflog i weithwyr Band 1 yw £15,997.

Mae'r berthynas rhwng cyfradd tâl y rhai sy'n derbyn y tâl isaf a'r rhai sy'n dal swyddi uwch yn cael ei phennu yn ôl y prosesau a ddefnyddir i benderfynu ar y strwythurau tâl a graddio a nodwyd yn gynharach yn y polisi hwn. Mae cylch cyflog y Llyfrgell, y cytunwyd arno â Llywodraeth Cymru, yn cwmpasu holl swyddi'r Llyfrgell.

## **6. Recriwtio i Swyddi Uwch / pob Swydd**

Amlinellir polisi a gweithdrefnau'r Llyfrgell o ran recriwtio ei holl weithwyr (gan gynnwys recriwtio gweithwyr i swyddi uwch) yn ei Pholisi Recriwtio.

Bydd y penderfyniad ynghylch y gydnabyddiaeth ariannol i Lyfrgellydd / Prif Weithredwyr sydd newydd ei benodi yn cael ei wneud wedi i'r Llyfrgell gael sêl bendith Llywodraeth Cymru yn unol â'r Ddogfen Fframwaith.

Bydd penderfyniadau ynghylch gweithwyr eraill sydd newydd eu penodi yn cael eu gwneud yn unol â'r strwythur tâl a'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol sy'n gymwys ar adeg recriwtio.

Os na all y Llyfrgell recriwtio i swydd, neu os oes angen cymorth dros dro i lenwi swydd wag, bydd y Llyfrgell, lle bo angen, yn ystyried penodi a defnyddio unigolion dan 'gytundebau ar gyfer gwasanaeth'.

Er mwyn dod o hyd i'r unigolion hyn, byddai proses gaffael berthnasol yn cael ei chynnal a fyddai'n sicrhau bod y Llyfrgell yn gallu dangos y gwerth gorau am arian drwy gystadleuaeth er mwyn sicrhau'r gwasanaeth perthnasol.

## **7. Rheoli Perfformiad**

Nid yw'r Llyfrgell yn gweithredu cynllun tâl i'w gweithwyr sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

Bob blwyddyn, bydd y gweithwyr yn cwrdd â'u rheolwr llinell i drafod a chytuno ar eu targedau a chynllun gwaith i'r flwyddyn nesaf.

Mae gofyn i weithwyr hefyd gymryd rhan mewn cyfarfod adolygu blynyddol ar y cyd â'u rheolwr llinell i drafod agweddau ar eu gwaith neu berfformiad. Amcan y cyfarfod fydd adolygu cyraeddiadau'r flwyddyn a fu a thrafod anghenion dysgu a datblygu yn y dyfodol ynghyd â chynllunio gyrfaol sy'n berthnasol i'r unigolyn ac i'r sefydliad.

Mae perfformiad yn cael ei reoli gydol y flwyddyn a chymerir camau adeiladol i helpu pob gweithiwr i wella'i berfformiad.

## **8. Taliadau wrth Derfynu Cyflogaeth**

Mae taliadau a wneir mewn cysylltiad â therfynu cyflogaeth oherwydd ymddiswyddiad, colli gwaith neu ymddeoliad yn cael eu gwneud yn unol â pholisi perthnasol y Llyfrgell. Ni thelir bonws.

Mae disgwyl i weithwyr weithio eu cyfnod rhybudd yn llawn yn unol â'u contract gwaith:  
Band 1-4 – 1 mis o rybudd, Bandiau 5 ac uwch - 3 mis o rybudd. Cynhelir adolygiad ymadael  
cyn y dyddiad gadael.

**Bandiau Tâl o'r 1af o Ebrill 2016****Band 1 (15934 - 15998)**

1 (a) 15934.05

1.1 15997.50

**Band 2 (17237 - 20106)**

1. Isafswm 17237

2 18194

3 19150

4. Uchafswm 20106

**Band 3 (19616 - 25739)**

1. Isafswm 19616

2 20842

3 22065

4 23290

5 24515

6. Uchafswm 25739

**Band 4 (23318 - 30595)**

1. Isafswm 23318

2 24773

3 26229

4 27683

5 29139

6 30595

**Band 5 (29849 - 39163)**

1. Isafswm 29849

2 31711

3 33575

4 35437

5 37301

6 39163

**Band 6 (40143 - 52671)**

1. Isafswm 40143

2 42648

3 45153

4 47659

5 50167

6 52671

**Band 7 (52671 - 65779)**

1. Isafswm	52671
2	54973
3	57273
4	59573
5	61875
6. Uchafswm	64175